# TENANTIAID Y MAES
## GWYBODAETH

**1. TYMOR**

Tymor tenantiaeth fydd Llun, 31 Mai 2004, hyd Sadwrn 5 Mehefin 2004. Dylai'r holl stondinau agor am 9:00 o'r gloch y bore ac aros ar agor hyd at 5:00 y prynhawn yn ystod y cyfnod yma.

**2. MESURIADAU**

Unedau cynfas ar fframiau alwminiwm yw stondinau'r Eisteddfod. Y mae pob uned yn 3 medr o led ac 6 medr o ddyfnder gan gynnwys llawr. Yr uchder i'r bargod yw 2.2 medr a 3.5 medr i'r brig. Caeir dros nos gyda llen gynfas.
(*Nid ystyriwyd mesuriadau'r llawr)

**3. YR ANABL**

Dylid gwneud pob ymgais i ddarparu ar gyfer yr anabl ac i hwyluso eu symudiad i mewn ac allan o'r uned/arddangosfa.

### RHEOLAU AC AMODAU

**1. IAITH**

(a) Bydd yr arwyddion ar y Maes a thu allan i'r pebyll a'r stondinau yn y **Gymraeg**.

(b) Lle bo angen hynny, caniateir arwyddion mewn mwy nag un iaith oddi mewn i'r pebyll **ond rhaid rhoi'r Gymraeg yn gyntaf ac yn amlycach nag unrhyw iaith arall a ddefnyddir. DISGWYLIR I BOB TENANT GYDYMFFURFIO Â'R RHEOL HON.**

(c) Dylai hurwyr gadw mewn cof mai Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod a gallant ddisgwyl felly fod cwsmeriaid ac ymwelwyr yn gwneud ymholiadau ac yn archebu drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r herwydd dylai'r hurwyr sicrhau fod ganddynt staff sy'n siarad Gymraeg gydol yr amser.

(ch) Disgwylir i'r mwyafrif o'r pamffledi ac ati o fewn y pebyll fod yn Gymraeg.

**D.S.** Bydd Swyddfa'r Eisteddfod yn barod i gynorthwyo gyda pharatoi cyfieithiadau i'r Gymraeg.

**2. CEISIADAU**

(a) Rhaid i bob cais, gyrraedd Swyddfa'r Eisteddfod ar **Ffurflen A** (amgaeëdig) , gyda blaendal o £100.00, erbyn 31 Mawrth 2003. Bydd dirwy o £100 am bob gais a dderbynnir a'r ôl y dyddiad yma.

(b) Bydd gan Bwyllgor yr Eisteddfod hawl i dderbyn rhan neu rannau neu'r cyfan o unrhyw gais a hawl i wrthod ceisiadau am le.

(c) Dylai pob ymgeisydd nodi pa gyfleusterau y mynna eu cael wrth wneud ei gais.

**3. TALIADAU**

Rhaid talu am y safle yn union wedi i'r ymgeisydd gael cadarnhad fod safle wedi ei neilltuo wrth dderbyn anfoneb am y gweddill, a'r fan bellaf erbyn 23 Ebrill 2004. Ni ddosbarthir unrhyw docynnau na phenodi safle ar gynllun y maes ond bod y taliad llawn wedi eu derbyn erbyn y dyddiad uchod.

**4. DIDDYMU CAIS**

(a) Nid ad-delir y blaendal ar unrhyw gyfrif, beth bynnag fo'r amgylchiadau.
(b) Os diddymir cais ar ôl 1 Mai 2004 ni ddychwelir na'r blaendal na'r tal am y safle.

**5. YSWIRIANT**

(a) Bydd y tenantiaid yn gyfrifol am ddigolledu'r Eisteddfod rhag unrhyw gostau neu iawndal cyfreithiol a all yr Eisteddfod wynebu yn dilyn:
- (i) Niwed corfforol gan gynnwys marwolaeth neu afiechyd i unrhyw berson.
- (ii) Colled neu unrhyw ddifrod o eiddo a ddigwydd ar feysydd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru o ganlyniad i unrhyw weithred uniongyrchol neu anuniongyrchol o eiddo'r tenantiaid.

(b) Y Tenantiaid ac nid yr Eisteddfod sy'n gyfrifol am ddiogelwch eu heiddo eu hunain tra byddant ar feysydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**6. GRADDFEYDD**

| | | |
|---|---|---|
| **(i)** | **Mudiadau/Sefydliadau Gwirfoddol ac Elusennau Cofrestredig** | £390.00 + TAW yr uned (yn cynnwys llawr)<br>Safleoedd rhydd am £20.00 y medr sgwâr (isafswm o £250.00) |
| **(ii)** | **Eraill** | £550.00 + TAW yr uned (yn cynnwys llawr)<br>Safleoedd rhydd am £25.00 y medr sgwâr (isafswm o £350.00) |
| **(iii)** | **Trydan** | Fflworoleuadau (neu debyg) £50.00 yr un + TAW<br>Pwynt pŵer (13 amp dwbl) £150.00 yr un + TAW<br>Cyflenwad 30 amp £250.00 + TAW<br>Cyflenwad 60 amp £350.00 + TAW |
| **(iv)** | **Dwr** | Cyflenwad dwr yr uned £150.00+ TAW |
| **(v)** | **Ffon** | Nid yw Pwyllgor yr Eisteddfod yn gwneud trefniadau ar gyfer gosod ffon. Gofynnir i bawb sydd angen y cyfryw gysylltu'n uniongyrchol â British Telecom. (Byddai yn ddefnyddiol os byddech yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Eisteddfod os ydych wedi gwneud cais i BT er mwyn arbed dryswch pan ddaw BT i osod y llinell ffon) |

Dylid archebu dwr a thrydan yr un pryd ag archeb am uned neu safle.

**7. MYNEDIAD**

Rhoddir tocynnau mynediad rhad fel y ganlyn
(i) Huriwr uned sengl neu safle 3 x 6 medr – 3 tocyn mynediad ac 1 tocyn parcio.
(ii) Huriwr dwy uned neu safle 6 x 6 medr – 5 tocyn mynediad a 2 docyn parcio
(iii) Unedau ychwanegol neu safleoedd ychwanegol 18 medr sgwâr – 1 tocyn mynediad yr uned
(iv) Uchafswm tocynnau rhad – 12 tocyn mynediad a 4 tocyn parcio
Gellir archebu tocynnau ychwanegol drwy anfon cais at y Trefnydd ar y **Ffurflen B** sy'n amgaeëdig. Dyma'r prisiau:

**MYNEDIAD I'R MAES**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfnod:** | Oedolion | £50.00 |
| **Dyddiol:** | Oedolion | £9.00 |

**PARCIO**

Rhad ac am ddim

Y mae'r tocynnau'n gyfnewidiol rhwng y rhai sy'n gweithio ar yr uned. Ni chaniateir mynediad i'r maes heb docyn rhwng Llun, 31 Mai, hyd Sadwrn 5 Mehefin 2004.

**8. CERBYDAU**

(i) Dylai pob cerbyd gadw at y llwybrau priodol

(ii) **Cyn yr Eisteddfod –** Dim ond cerbydau sydd yn cario deunydd neu offer trwm a ganiateir ar y maes. Gofynnir i weithwyr barcio yn y maes parcio a cherdded i'r maes.

(iii) **Wythnos yr Eisteddfod –** Dim ond cerbydau sydd â'r sticer briodol a ganiateir i'r maes. Yn achos stondinwyr, caniateir mynediad cyn 09:30 y.b., gyda'r sticer briodol ar yr amod eu bod wedi talu blaendal o £20.00 wrth gyrraedd. Fe ad-delir y swm hwn os bydd y cerbyd wedi gadael cyn 09:30 y.b. Mewn achos o gerbyd yn aros ar ôl 09:30 y.b. fe gollir y blaendal, ac fe gymerir camau i symud y cerbyd. Ni chaniateir ail-fynediad i'r cerbyd am weddill yr Eisteddfod. Gellir cael y tocyn mynediad i'r maes priodol drwy wneud cais ysgrifenedig i Swyddfa'r Eisteddfod ar **Ffurflen B**.

**Lle mae angen symud nwyddau ar y maes ar ôl 9:30 y.b. dyle'r unedwr gysylltu â swyddfa diogelwch y maes. Yno bydd fan dosbarthu nwyddau, gyda gyrrwr o staff maes yr Eisteddfod, i gasglu a dosbarthu nwyddau o amgylch maes yr Eisteddfod. Mae'r gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim ond dyle'r nodi fe fydd yr amserlen yn dibynni ar ddyletswyddau eraill y gyrrwr.**

(iv) Ni chaniateir mynediad i gerbydau ddydd Sadwrn, 5 Mehefin 2004, hyd nes y gorffennir cyfarfod y prynhawn, sef tua 6.00y.h.. a disgwylir i **bawb** aros yn agored hyd hynny.

**9. MEDDIANT**

Bydd y safleoedd yn barod i'r Tenantiaid ddydd Gwener, 28 Mai 2004, ond cyfrifoldeb llwyr y tenant fydd unrhyw eiddo a gedwir yno. Rhaid i'r tenantiaid glirio'r safleoedd erbyn 5.00 p.m. ddydd Sul, 6 Mehefin 2004 ond mewn achosion arbennig fe ystyrir ceisiadau (ysgrifenedig) am ymestyn hyn hyd 1.00y.p. ddydd Llun, 7 Mehefin 2004. Ni chaniateir i neb weithio ar y safleoedd yn ystod cyfarfodydd cyhoeddus yn y Pafiliwn. Rhaid i'r tenantiaid ddarparu eu safleoedd erbyn **5.00y.p. dydd Sadwrn, 29 Mai 2004.** Mewn sefyllfaoedd arbennig fe ellir, gyda chaniatâd Rheolwr y Maes, i gwblhau y gwaith paratoi ar y dydd Sul. Rhaid gwneud cais swyddogol ym y caniatâd yma i Reolwr y Maes ond rhaid disgwyl rhai cyfyngiadau ar y gwaith y gellir eu gwneud oherwydd digwyddiadau swyddogol ar y Sul e.e. oedfa'r bore neu ymarferion yn y Pafiliwn

**10. CLUDIANT**

Rhaid i bob cludiant safle'r Eisteddfod, drwy'r post, ar y ffyrdd neu drwy gontractwyr eraill fod wedi cofnodi'n glir - enw'r Tenant a rhif y stondin. Os na chedwir yr amod hwn gall dryswch mawr ddilyn, a bydd nwyddau a gyfeirir at rai heblaw Tenantiaid (e.e. Is-gontractwyr neu staff) fod mewn perygl o oedi mawr neu o beidio â chyrraedd pen y daith. Gofynnir i'r tenantiaid oll dynnu sylw eu cyflenwyr at y rheol hon.

**11. HARDDU**

Rhaid i bob safle gael ei harddu'n ddeniadol ac o safon i foddhau Pwyllgor yr Eisteddfod. Bydd gan y Pwyllgor hawl i ofyn am newidiadau. Sylwer hefyd ar baragraffau 22 a 23.

**12. GLENDID**

Rhaid cadw pob safle yn lân a thwt, a'i adael yn yr un cyflwr ar ôl yr Eisteddfod. Codir tâl gan bwyllgor yr Eisteddfod am symud sbwriel diangen, ac efallai gwrthodir cais am safle yn y dyfodol neu gofynnir am flaendal i sicrhau bod y safle yn cael eu gadael mewn cyflwr boddhaol.

**13. FFENSIO RHAFFAU PEBYLL**

Rhaid i hurwyr a fydd yn codi pebyll ar safleoedd rhydd wneud yn sïwr eu bod wedi diogelu pob rhaff allanol gyda ffens wen isel - hyn i gadw'r cyhoedd rhag damweiniau posibl.

**14. GWERTHU NWYDDAU**

Y mae caniatâd i werthu o fewn y stondin **yn unig** fel y ganlyn:

(i) Llenyddiaeth Gymraeg a Chymreig a Llenyddiaeth yn ymwneud â Chymru a'r Cymry.

(ii) Llenyddiaeth yn yr ieithoedd Celtaidd yn ymwneud â'r Celtiaid a'r gwledydd Celtaidd.

(iii) Cerddoriaeth argraffedig sydd yn gydnaws ag amcanion yr Eisteddfod

(iv) Disgiau a recordiau:
- (a) Cymraeg
- (b) Yn ymwneud â Chymru
- (c) Gan gyfansoddwyr/awduron o Gymru
- (ch) Clasurol a safonol

(v) Cynnyrch a diwydiannau gwledig yng Nghymru, gwaith celfyddyd gain o Gymru

(vi) Mân nwyddau eraill at ddefnydd Eisteddfodwyr megis cardiau post, papur ysgrifennu, ffilmiau ac ati.

Nwyddau eraill y rhoddwyd caniatâd i'w gwerthu wedi ystyriaeth gan y Pwyllgor Gwaith lleol. Bydd anfoneb am weddill yr arian sydd yn ddyledus am yr uned yn arwydd fod gan yr unedwr yr hawl i werthu y cynnyrch a nodir ar y ffurflen gais – Ffurflen A. Lle bwriedir gwerthu nwyddau neu gynnig gwasanaeth na nodir ar y ffurflen gais yna raid gwneud cais ysgrifenedig at **Rheolwr Busnes a Maes, Swyddfa'r Eisteddfod, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd, CF11 9NT**

(vii) Ni chaniateir gwerthu na bwydydd na diodydd yn yr uned.

**15. CASGLIADAU**

Ni chaniateir casglu arian ar Faes yr Eisteddfod, ond ni wrthwynebir gosod blwch casglu oddi mewn i uned neu stondin. Ni chaniateir gwerthiant tocynnau raffl ond bod cais ysgrifenedig wedi eu gwneud i Swyddfa'r Eisteddfod. Os ydi'r cais yn cael eu caniatâi yna bydd llythyr swyddogol o Swyddfa'r Eisteddfod yn cadarnhau hyn a dyli'r arddangos y llythyr yma yn amlwg yn yr uned.

**16. TWRW AC YMYRRAETH**

Gwaherddir unrhyw denant rhag gwneud unrhyw beth neu weithred, neu i fod yn achos unrhyw beth neu weithred ar Faes yr Eisteddfod neu unrhyw ran o'r Maes (cynnwys hyn unrhyw safle neu safleoedd a osodir iddo) a bair anhwylustod neu a fo'n arwain i anhwylustod neu boendod neu a ddichon ymyrryd mewn unrhyw fodd â gweithrediadau'r Eisteddfod a'i mwynhad gan berson neu bersonau a fydd yn bresennol ynddi. **Gwaherddir y defnydd o beiriant cynhyrchu trydan.**

**17. AILOSOD**

Ni chaniateir i unrhyw denant ailosod ei stondin neu safle neu ran o'r cyfryw heb ganiatâd Pwyllgor yr Eisteddfod. Mae'r Eisteddfod yn nodi bod y gost o llogi uned yn ddrud yn enwedig i fusnesau/mudiadau bach ac felly yr ydym yn fodlon derbyn cais gan fwy nag un busnes/mudiad i rannu uned rhyngddynt. Yn y sefyllfa yma dyle'r pob busnes/mudiad sydd yn bwriadu rhanni uned llenwi ac arwyddo Ffurflen A a'i gyrri yn ôl gydau gilydd yn yr un amlen. Bydd hyn yn sicrhau bod enwau y busnes/mudiad yn cael eu cyhoeddi yn gywir ar fap y maes a hefyd eu bod wedi darllen a derbyn y rheolau yma. **Rhaid nodi un busnes/mudiad fel prif huriwr yr uned.** Dyma'r busnes/mudiad fydd yn derbyn yr anfoneb am weddill y taliadau a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y talid llawn yn cael eu gwneud cyn bydd y tocynnau yn cael eu dosbarthu o swyddfa'r Eisteddfod.

**18. GWARCHODAETH**

Er bydd gan yr Eisteddfod warcheidwad ar y maes, nid yw'r Pwyllgor yn gyfrifol am ddiogelwch unrhyw stondin neu safle. Rhaid i bob tenant a ddymuno gael gofalwr dros nos ar ei stondin wneud trefniadau gyda Threfnydd yr Eisteddfod a chael trwydded swyddogol ganddo.

**19. IECHYD A DIOGELWCH**

Tynnir eich sylw at ddogfen bolisi'r Eisteddfod ar iechyd a diogelwch, a gofynnir i chi weithredu yn unol â'r polisi hwn. Gellir cael copïau llawn o'r ddogfen o Swyddfa'r Eisteddfod.

Rhaid sicrhau eich bod yn cwblhau y ffurflen Asesu Risg yn y pecyn yma eu dychwelyd gyda'r ffurflen gais neu sicrhau bod y ffurflen gennych wrth gyrraedd y maes am y tro cyntaf. Mae angen y ffurflenni yma gan y Rheolwr Maes i ddangos i swyddogion y Cyngor lleol ar Frigâd Dan. Os oes unrhyw broblem gyda' llenwi'r ffurflen yma yna cysylltwch a Swyddfa'r Eisteddfod.

Yn ddiweddar mae nifer o stondinau wedi defnyddio silindrau nwy ar gyfer llenwi balwnau. Os ydych yn fwriadau defnyddio silindr nwy balwn yna raid sicrhau eu bod yn ddiogel mewn ffrâm arbennig neu wedi eu clymi yn ddiogel at ffrâm yr uned yn unionsyth i fynni gyda ddim perygl iddo ddisgyn yn ddamweiniol gyda niwed ir falf reoli. Nid yw yn dderbyniol i orwedd y silindr ar y llawr oherwydd tebygolrwydd difrod i'r falf. Hefyd rhaid trosgwlyddo unrhyw silindr sbâr i ofal staff maes yr Eisteddfod i'w storio mewn caets arbennig yn compownd technegol yr Eisteddfod

**20. OFFER TÂN**

Rhaid i bob huriwr sicrhau bod offer ymladd tân addas a phwrpasol ar gael oddi fewn i'r uned/safle yn union a darganfyddiad yr Archwiliad Risg Tân. Lle mae'r asesiad

risg yn nodi ‘dim risg tân’ yr ydym dal yn disgwyl diffoddwr tan fach i fod ar gael yn yr uned.  Hefyd dyle’r sicrhau bod staff yr uned yn nodi lle mae presenoldeb y Frigâd Tân ar y maes a sut i alw am gymorth os digwydd tân

**21. POSTERI**

Ni chaniateir gosod posteri ar adeiladau’r Eisteddfod.

**22. CWYNION**

Rhaid cyflwyno unrhyw gwynion (yn ysgrifenedig) i Drefnydd yr Eisteddfod o fewn saith niwrnod wedi’r Eisteddfod.

**23. ARCHWILIO**

Trefnir i Swyddogion yr Eisteddfod archwilio pob stondin ar y diwrnod agoriadol ac yn achlysurol wedi hynny.  Bydd gan y Swyddogion hynny, ar ran yr Eisteddfod, hawl i ofyn am newidiadau a rhaid i denantiaid gydymffurfio â’r newidiadau a awgrymir (Sylwer hefyd ar baragraffau 1, 11 a 24)

**24. TORRI RHEOLAU**

Os torrir un o’r rheolau ac/neu amodau hurio a nodir yma, gall Pwyllgor yr Eisteddfod derfynu’r cyfryw huriaeth yn ddirybudd ac ar unwaith (heb amharu ar ei hawl i gymryd camau eraill a fo’n agored iddo).  Os digwydd hyn, nid ad-delir unrhyw dâl hurio nac unrhyw ran ohono i’r huriwr neu’r tenant a dorro un o’r rheolau/amodau a nodwyd uchod.  **Ymhellach, gall Pwyllgor yr Eisteddfod wrthod gosod yn y dyfodol uned neu safle i’r huriwr neu’r tenant a dorrodd un neu ragor o’r Rheolau/Amodau hyn.**

**25. Bydd yr Eisteddfod yn ymdrechu i sicrhau y bydd pob safle yn gyfwerth â’i gilydd.  Felly ni dderbynnir unrhyw gwyn am leoliad y pebyll ar y maes ac ni ellir gwarantu lleoliad arbennig.  Ni fydd yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw golled ariannol gan unrhyw denant.**